Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 6 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(112)v1

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**

NDM5137

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Peter Black (Gorllewin De Cymru)
Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)
Byron Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cerddwyr a gafodd eu hanafu neu eu lladd yn cynrychioli 21 y cant o nifer y bobl a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yng Nghymru yn 2011;

2. Yn cydnabod bod terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr wedi'u profi i fod yn fuddiol i leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd; a

3. Yn galw ar awdurdodau lleol i gynyddu nifer y parthau 20 milltir yr awr yng Nghymru.

**Cefnogwyd gan**:
Christine Chapman (Cwm Cynon)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

**4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Losgi Gwastraff (60 munud)**

**NDM5161 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-04-341: Llosgi Gwastraff, a osodwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 30 Ionawr 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Deisebau
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Ofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Mark Isherwood) (60 munud)**

**NDM5121 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mark Isherwood gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Mae'r wybodaeth cyn y balot ar gael drwy fynd i:

[http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_021.htm](http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_021.htm)

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

NDM5160 Nick Ramsay (Mynwy):

Cyfrifiadura Perfformiad Uchel - Pweru arloesedd er lles economi Cymru

Pwysigrwydd a photensial uwchgyfrifiaduron o Gymru o ran datblygu economi Cymru.

**7. Dadl Fer - gohiriwyd o 23 Ionawr (30 munud)**

NDM5145 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng

Y bygythiadau i ddiwydiant Cig Oen Cymru a'r angen i weithredu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Ionawr 2013 i'w hateb ar 6 Chwefror 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau a gafodd gyda'r Gweinidog Iechyd ynghylch dyrannu cyllid cyfalaf. OAQ(4)0212(FIN)

2. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu cydraddoldeb rhwng y ddau ryw yng Nghymru. OAQ(4)0207(FIN)

3. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ei hadran yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0210(FIN)

4. Lynne Neagle (Tor-faen): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn 2013. OAQ(4)0209(FIN) TYNNWYD YNOL

5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionydd): A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid untro i bortffolio'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn benodol ar gyfer gweithredu polisi morol. OAQ(4)0217(FIN)W

6. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa broses ddiwydrwydd dyladwy y mae'r Gweinidog yn ei defnyddio gydag adrannau Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0215(FIN)W

**7. Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog roi amlinelliad o bolisi Llywodraeth Cymru ar lywodraethu moesegol yng Nghymru. OAQ(4)0216(FIN)

**8. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw asesiad o'r ffordd y bydd newidiadau i'r meini prawf ar gyfer taliadau annibyniaeth bersonol yn effeithio ar bobl anabl yng Nghymru. OAQ(4)0208(FIN)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ariannu dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0202(FIN)

**10. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yng Nghymru. OAQ(4)0206(FIN)

**11. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog hysbysu'r Cynulliad o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran caffael. OAQ(4)0213(FIN)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). OAQ(4)0204(FIN)

**13. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru ar gyfer 2013. OAQ(4)0211(FIN)

**14. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer 2013. OAQ(4)0214(FIN)W

**15. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi preifat/cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(4)0205(FIN)

Gofyn i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

1. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Cynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0229(BET)

2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am helpu busnesau i fenthyca i fuddsoddi. OAQ(4)0226(BET)W

3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth bosibl dinas-ranbarthau o ran ysgogi twf economaidd. OAQ(4)0217(BET)

4. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog yn ddiweddar â chynrychiolwyr y diwydiant amaethyddol. OAQ(4)0228(BET)W

5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cynyddu argaeledd cyfalaf ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol. OAQ(4)0222 (BET)

6. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Gweinidog ddatgan beth ym marn panel y sector adeiladu yw'r materion allweddol sy'n effeithio arnynt ar hyn o bryd yn ystod yr hinsawdd economaidd hwn. OAQ(4)0221(BET)

7. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru. OAQ(4)0224(BET)

8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda siopau elusennol am adolygiad Llywodraeth Cymru o ardrethi busnes. OAQ(4)0227(BET)W

**9. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi datblygu gwasanaethau symudol 4G yng Nghymru. OAQ(4)0230(BET)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch manteision economaidd sefydlu carchar newydd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0232(BET)**W**

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu ffyniant economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0223(BET)

**12. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0225(BET)

**13. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno band eang symudol 4G ledled Cymru. OAQ(4)0219(BET) **TYNNWYD YNOL**

**14. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu entrepreneuriaeth yng Nghymru. OAQ(4)0218(BET)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i gefnogi economi Gogledd Cymru. OAQ(4)0231(BET)